IS-DDEDDFWRIAETH CYMRU

# NOSC 2026 Rhif 10

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Mamheilad, Torfaen, i Gyfnewidfa Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 January 2026* |
| *Yn dod i rym* | *26 Ionawr 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4042, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarn penodedig o’r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw’r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4042 (Cylchfan Mamheilad, Torfaen, i Gyfnewidfa Hardwick, Sir Fynwy) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2026 a daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Ionawr 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” *(“exempted vehicle”)* yw unrhyw gerbyd sy’n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â’r gwaith sy’n arwain at y Gorchymyn hwn;

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae’r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH SUBORDINATE LEGISLATION

# NWSI 2026 No. 10

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A4042 Trunk Road (Mamhilad Roundabout, Torfaen, to Hardwick Interchange, Monmouthshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *23 January 2026* |
| *Coming into force* | *26 January 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4042 trunk road, are satisfied that traffic on a specified length of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A4042 Trunk Road (Mamhilad Roundabout, Torfaen, to Hardwick Interchange, Monmouthshire) (Temporary Traffic Prohibitions and Restrictions) Order 2026 and this Order comes into force on 26 January 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order:

“exempted vehicle” *(“cerbyd esempt”)* means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” *(“works period”)* yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 19:00 o’r gloch ar 26 Ionawr 2026 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” *(“the trunk road”)* yw cefnffordd yr A4042 o Gasnewydd i Amwythig yn Siroedd Torfaen a Sir Fynwy.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darn o’r gefnffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i’r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, na chaniatáu i gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio, yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i’r Gorchymyn hwn ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau y cyfeirir atynt yn erthygl 5 a 6 yn weithredol.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i’r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o’r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i’r Gorchymyn hwn.

**Atal Dros Dro**

**7.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy’n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn Atodlenni 3 a 4, neu sy’n dileu cyfyngiad ar gyflymder y cerbydau hynny, wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo’r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 5 a 6 yn weithredol.

**Cymhwyso**

**8.** —(1) Nid yw’r gwaharddiad na’r cyfyngiadau yn erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfyn cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

**Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn**

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

“the trunk road” *(“y gefnffordd”)* means the A4042 Newport to Shrewsbury trunk road in the Counties of Torfaen and Monmouthshire;

“works period” *(“cyfnod y gwaith”)* means intermittent periods commencing at 19:00 hours on 26 January 2026 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibitions and Restrictions**

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the length of the trunk road described in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, use or permit the use of a motor vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the length of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order during such times as the restrictions referred to in article 5 and 6 are in operation.

**5.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 3 to this Order.

**6.** No person may, during the works period, drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 10 miles per hour on the length of the trunk road specified in Schedule 4 to this Order.

**Suspension**

**7.** Any statutory provisions restricting or derestricting the speed of vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedules 3 and 4 are suspended during such times as the restrictions specified in articles 5 and 6 are in operation.

**Application**

**8.** —(1) The prohibition and restrictions in articles 3, 4, 5 and 6 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limit imposed by this Order applies to an exempted vehicle.

**Duration of this Order**

**9.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 January 2026

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd Cerbydau Dros Dro**

Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ, hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick, y Fenni, NP7 9BP.

**ATODLEN 2**
**Gwahardd Goddiweddyd Dros Dro**

Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick, y Fenni, NP7 9BP.

**ATODLEN 3**
**Terfyn Cyflymder 40mya Dros Dro**

1. Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r gerbytffordd gylchredol wrth Gylchfan Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ, hyd at bwynt 15 o fetrau i'r de o linell ganol ei chyffordd â Lôn Croes-y-pant, Pont-y-pŵl.

2. Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o bwynt 219 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â Lôn Parc-y-brain hyd at bwynt a leolir 38 o fetrau i'r de o linell ganol ei chyffordd â Hen Ffordd y Fenni.

3. O bwynt 97 o fetrau i'r gogledd o linell ganol ei chyffordd â Lôn Llwyn Celyn, hyd at bwynt 106 o fetrau i'r de o'i chyffordd â ffordd y B4269, o'r enw Lôn y Sipsi.

4. O bwynt 400 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â ffordd y B4269, o'r enw Lôn y Sipsi, hyd at ei

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the 23 January 2026

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Temporary Prohibition of Vehicles**

The length of the A4042 trunk road that extends from the its junction with the circulatory carriageway at Mamhilad Roundabout, Pontypool, NP4 0HZ, to its junction with the circulatory carriageway of Hardwick Roundabout, Abergavenny, NP7 9BP.

**SCHEDULE 2**
**Temporary Prohibition of Overtaking**

The length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Mamhilad Roundabout, Pontypool, NP4 0HZ to its junction with the cuirculatory carriageway of Hardwick Roundabout, Abergavenny, NP7 9BP.

**SCHEDULE 3**
**Temporary 40mph Speed Limit**

1. The length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway at Mamhilad Roundabout, Pontypool, NP4 0HZ, to a point 15 metres south of the centreline of its junction with Croes-Y-Pant Lane, Pontypool.

2. The length of the A4042 trunk road that extends from a point 219 metres north of the centerline of its junction with Park Y Brain Lane to a point located 38 metres south of the centerline of its junction with Old Abergavenny Road.

3. From a point 97 metres north of the centerline of its junction with Llwyn Celyn Lane, to a point 106 metres south of its junction with the B4269 road, known as Gypsy Lane.

4. From a point 400 metres north of its junction with the B4269 road, known as Gypsy Lane, to its

chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick, y Fenni, NP7 9BP.

junction with the circulatory carriageway of Hardwick Roundabout, Abergavenny, NP7 9BP.

## ATODLEN 4
## Terfyn Cyflymder 10mya Dros Dro

Y darn o gefnffordd yr A4042 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Mamheilad, Pont-y-pŵl, NP4 0HZ hyd at ei chyffordd â cherbytffordd gylchredol Cylchfan Hardwick, y Fenni, NP7 9BP.

## SCHEDULE 4
## Temporary 10mph Speed Limit

The length of the A4042 trunk road that extends from its junction with the circulatory carriageway of Mamhilad Roundabout, Pontypool, NP4 0HZ to its junction with the cuirculatory carriageway of Hardwick Roundabout, Abergavenny, NP7 9BP.